

















TAFLEN GWYNO'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

	<p>Mae'r daflen hon yn dweud wrthy ch chi beth i'w wneud os oes gennych chi gŵyn, a sut y bydd Conwy yn delio â hi</p>
	<p>Mae pob Cyngor yng Nghymru yn dilyn yr un rheolau, a gafodd eu diweddarau ym mis Awst 2014</p>
	<p><u>Cam 1</u></p>
	<p>Cysylltwch â ni os ydych chi'n anfodlon ac eisiau cwyno, neu dim ond gofyn am gyngor</p>
	<p>Fe fydd y Tîm Cwynion yng Nghonwy yn gwrando arnoch chi ac yn delio â'ch cwyn yn y ffordd gywir</p>







HAWDD I'W DDARLLEN

	<p>Gallwch eu ffonio ar 01492 574078</p>
	<p>Gallwch anfon neges e-bost i cssc@conwy.gov.uk</p>
	<p>Gallwch fynd i'w gwefan yn www.conwy.gov.uk</p>
	<p>Fe fyddan nhw'n cofnodi eich cwyn</p>
	<p>Fe fyddan nhw'n dweud wrthyh chi o fewn 2 ddiwrnod gwaith eu bod wedi cael eich cwyn</p>
	<p>O ddydd Llun i ddydd Gwener yw ein diwrnodau gwaith ni, felly os bydd eich cwyn yn cyrraedd dros y penwythnos, gallai gymryd ychydig mwy o amser i ni gysylltu â chi</p>

HAWDD I'W DDARLLEN

	<p>Yna, fe allwch chi siarad â'r Rheolwr o fewn 10 diwrnod gwaith, dros y ffôn</p>
	<p>Neu fe allwch chi siarad â'r Rheolwr wyneb yn wyneb</p>
	<p>Fe fyddwch chi a'r Rheolwr yn cytuno sut i ddatrys y broblem, a bydd y tîm yn gwneud eu gorau glas i wneud hynny</p>
	<p>Fe fyddan nhw'n ysgrifennu atoch chi o fewn 5 diwrnod gwaith i'ch cyfarfod</p>
	<p><u>Cam 2</u></p>
	<p>Os ydych chi'n anfodlon am nad ydych chi'n hoffi beth mae'r llythyr yn ei ddweud</p>
	<p>Gallwch siarad â'r Rheolwr neu'r Tîm Cwynion eto</p>

HAWDD I'W DDARLLEN

	<p>Gallwch ddweud wrthyn nhw pam eich bod chi'n anfodlon</p>
	<p>A dweud wrthyn nhw beth rydych chi eisiau iddyn nhw ei wneud am y peth</p>
	<p>Os na fyddan nhw'n gallu datrys y broblem, bydd rhywun y tu allan i Gyngor Conwy yn edrych ar eich cwyn</p>
	<p>Enw'r person hwnnw ydi Ymchwilydd Annibynnol</p>
	<p>Fe fyddan nhw'n edrych ar bopeth ac yn ysgrifennu adroddiad</p>
	<p>Fe fyddan nhw'n anfon yr adroddiad i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol</p>

HAWDD I'W DDARLLEN

	<p>Os nad ydi'r gŵyn yn rhy gymhleth, bydd y cyfarwyddwr yn anfon copi o'r adroddiad i chi o fewn 25 diwrnod gwaith gobeithio</p>
	<p>Gallwch ofyn i Ymchwilydd Annibynnol edrych ar eich cwyn yn y lle cyntaf</p>
	<p>Ond rydym yn gobeithio y byddwch chi'n siarad â Rheolwr yn gyntaf, ac yn rhoi cyfle iddyn nhw ateb eich cwyn</p>
	<p>Os ydych chi'n dal i fod yn anfodlon â'ch cwyn, gallwch gysylltu â'r Ombwdsman</p>
	<p>Drwy ysgrifennu llythyr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 1 Ffordd yr Hen Gae Pencoed CF35 5LJ</p>

HAWDD I'W DDARLLEN

	<p>Neu drwy ffonio 0300 790 0203</p>
	<p>Neu anfon neges e-bost ask@ombudsman-wales.org.uk</p>
	<p>www.ombudsman-wales.org.uk</p>